



# Dydd Sadwrn 12 Mai 2018

## Gwybodaeth ac Amodau Arddangoswyr

- 1 Ceisiadau ar gyfer stondin** - Mae'n rhaid i bawb sy'n dymuno archebu lle gwblhau a dychwelyd y ffurflen gais i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - y Trefnydd - a sicrhau bod taliad yn cael ei wneud erbyn y dyddiad a nodwyd ar y ffurflen gais. Ni fydd y Trefnydd yn gyfrifol am unrhyw gais a aeth ar goll neu a gollwyd ac mae'n cadw'r hawl i wrthod unrhyw fynediad yn ôl ei ddisgresiwn llwyr.
- 2 Cadw at y rheolau** - Bydd pob arddangoswr yn amodol i'r amodau hyn fel y dehonglwyd gan y Trefnydd.
- 3 Taliad** - Ni fyddwn yn derbyn unrhyw gais heb gael taliad llawn cyn y digwyddiad.
- 4 Dyrannu lle ar gyfer stondin** - Bydd y Trefnydd yn delio gyda cheisiadau am le a safle ar gyfer lleoliad yn ôl ei ddisgresiwn.
- 5 Is-osod** - Ni fydd unrhyw arddangoswr yn is-osod nac yn neilltuo rhan o'r lle a ddyrannwyd iddynt.
- 6 Oriau agor** - Paratoi o 7am ymlaen. Cadw o 6.30pm ymlaen. Ni cheir symud unrhyw gerbyd rhwng 9.30am a 6.30pm. Gallai'r amseroedd newid er mwyn bodloni gofynion iechyd a diogelwch.
- 7 Yswiriant** - Bydd angen o leiaf £5,000,000 o yswiriant atebolwydd cyhoeddus. Bydd methu dangos prawf o yswiriant atebolwydd cyhoeddus cyn y digwyddiad yn arwain at wrthod y cais neu droi rhywun o safle'r digwyddiad.
- 8 Tynnu'n ôl neu ganslo lle** - Os bydd arddangoswr yn tynnu'n ôl o'r digwyddiad neu'n canslo lle am ba bynnag reswm, bydd yr holl ffioedd yn cael eu fforffedu ar gyfer costau gweinyddu. Mae'r Trefnydd yn cadw'r hawl i ailddyrranu'r lle.
- 9 Goruchwyliaeth oedolion** - Mae'n **RHAID** i oedolyn (dros 18 oed) oruchwyllo stondinau marchnad/stondinau elusen/arddangosfeydd/man arlwyo **TRWY'R ADEG**.
- 10 Arfau ffug/posibl** - Ni ddylid gwerthu arfau ffug o gwbl ac atgoffir arddangoswyr na ddylent werthu arfau posibl i rai o dan 18 oed. Cynhelir gwiriadau ar y diwrnod.
- 11 Trydan** - Hysbyswch y Trefnydd os byddwch angen trydan (gweler y ffurflen archebu). **NI CHANIMATEIR GENERADUR PETROL AR Y SAFLE.**
- 12 Y defnydd o offer uchelseinydd** - Ni chaniateir i arddangoswyr ddefnyddio offer uchelseinydd a gweiddi i ddenu cwsmeriaid.
- 13 Masnachwyr achlysurol** - Ni chaniateir masnachwyr achlysurol ar y diwrnod.
- 14 Sbwriel** - Dylai arddangoswyr sicrhau nad oes yna sbwriel ar eu stondin. Darperir biniau sbwriel masnachol.
- 15 Casgliad stryd** - Dylai unrhyw ymgeisydd sy'n dymuno apelio am gyfraniadau i elusennau neu fudiadau gwirfoddol nodi hyn ar y ffurflen gais. Os caiff ei gymeradwyo, caniateir casgliadau o fewn y lle a archebwyd yn unig.

- 16 Bwyd a diod** - Ni chaniateir gwerthu bwyd a diod heb ganiatâd ymlaen llaw.
- 17 Alcohol** - Ni chaniateir yfed alcohol ar y safle yn ystod y digwyddiad. Ni ddylid ei werthu na'i gynnig fel gwobr gan unrhyw fasnachwr/elusen/arddangoswr na man arlwyo oni bai y cytunwyd ymlaen llaw gyda'r Trefnydd.
- 18 Cestyll neidio** - Ni chaniateir defnyddio "Cestyll Neidio" heb ganiatâd ymlaen llaw.
- 19 Parcio** - Anfonir trwydded arddangoswr/cerbyd i bob arddangoswr/masnachwr tua 7 diwrnod cyn y digwyddiad. Mae'n rhaid dangos rhif cofrestru'r cerbyd ar y ffurflen archebu. Caniateir un cerbyd yn unig fesul safle, o ganlyniad i le parcio cyfyngedig ar y safle. **Ni chaniateir i unrhyw gerbydau ychwanegol barcio ger arddangosfeydd/standinau, oni bai y cytunwyd ymlaen llaw gyda'r Trefnydd.**
- 20 Cerbydau ar y safle** - Yn amodol ar ofynion lechyd a Diogelwch, mae'n rhaid arddangos trwydded y cerbyd yn glir. **Ni chaniateir i gerbydau symud ar y Promenâd rhwng 9.30am a 6.30pm oni bai y cytunwyd ymlaen llaw gyda'r Trefnydd. Ni chaiff unrhyw gerbyd ar y safle yrru'n gyflymach na 5mya gyda'i oleuadau rhybudd ymlaen am resymau iechyd a diogelwch.**
- 21 Mynediad a thynnu'r stondin i lawr** - Dylai arddangoswyr gyrraedd y safle rhwng 7am ac 8am ar ddiwrnod y digwyddiad a bod yn eu lle dim hwyrach na 9.30am. Gellir tynnu'r stondin i lawr o 6pm oni bai y cytunwyd ymlaen llaw gyda'r Trefnydd.
- 22 Parthau'r digwyddiad** - Bydd y digwyddiad yn cynnwys parthau. Bydd eich arddangosfa yn y parth priodol gyda rheolwr parth. Cewch fanylion y sawl y dylech adrodd iddynt ar y diwrnod yn eich pecyn arddangoswr.
- 23 Ceisiadau hwyr** - Mae'n rhaid cyflwyno ceisiadau erbyn y dyddiad cau. Ni dderbynnir ceisiadau hwyr.
- 24 Hysbysebu** - Caiff y digwyddiad cyfan ei hysbysebu ac mae'r Trefnydd yn annog arddangoswyr i beidio talu am hysbysebu ar wahân. Os dymunwch drafod unrhyw gyfleoedd marchnata sydd ar gael, yna cysylltwch â'r Trefnydd os gwelwch yn dda.
- 25 Methiant i gadw at yr amodau** - Bydd arddangoswyr sy'n methu cadw at yr amodau hyn yn rhoi'r hawl i'r Trefnydd ofyn i'r arddangoswr dynnu'r stondin i lawr a chael ei droi o'r safle.
- 26 Ni ddarperir unrhyw ddodrefn** - Mae'n gyfrifoldeb ar y stondinwyr i ddarparu dodrefni eu hunain. Cyfrifoldeb y stondinwyr yn gyfan gwbl yw gosod cyfarpar a strwythurau dros dro. Ni ddylid disgwyl i Drefnydd y digwyddiad gynorthwyo gyda hyn.

**Mae'r Trefnydd yn cadw'r hawl i newid unrhyw amodau arddangos ar ddiwrnod y digwyddiad fel bo'r angen**